Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Hadu'r Dyfodol

## Rhaglen gelfyddyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Gŵyl Ymylol Caeredin



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn lansio rhaglen Hadu'r Dyfodol**'.

**Mai 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 12**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

**Website:** https://arts.wales/cy

**Ffôn:** 03301 242733

**E-bost:** grants@arts.wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Ynglŷn â rhaglen Hadu'r Dyfodol....................................4**


**Pwy sy'n gallu gwneud cais?...............................................8**

**Hygyrchedd.........................................................................10**

**Mwy o help..........................................................................11**

**Geiriau anodd......................................................................12**

# Ynglŷn â rhaglen Hadu’r Dyfodol



Mae **Hadu’r Dyfodol** yn enw ar raglen i gefnogi artistiaid a chynhyrchwyr sy’n dymuno perfformio yng **Ngŵyl Ymylol Caeredin**.



Mae ar gyfer artistiaid a chynhyrchwyr sydd ddim wedi perfformio yno o’r blaen.



Enw rhaglen arddangos Cyngor Celfyddydau Cymru fydd Cymru yng Nghaeredin. Bydd y rhaglen hon yn rhedeg ochr yn ochr â hi.



Mae arnon ni eisiau helpu artistiaid yng Nghymru gael llais. Ac mae arnon ni eisiau iddo fod yn deg i bawb.



Mae’n bwysig iawn bod artistiaid wedi paratoi yn dda os oes arnyn nhw eisiau perfformio yng Ngŵyl Ymylol Caeredin.



Oherwydd hon yw’r ŵyl gelfyddydol fwyaf yn y byd.



Bydd y rhaglen yn cynnig cefnogaeth i artistiaid.



Os hoffech chi wneud cais bydd arnoch chi angen dweud wrthyn ni beth y byddwch chi’n ei wneud. A pham y dylen ni eich dewis chi.

## Byddwn yn dewis artistiaid yn seiliedig ar yr wybodaeth hon

Bydd arnoch chi angen dweud wrthyn ni am:



- Y gwaith yr hoffech chi ei ddangos yng Nghaeredin yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Efallai eich bod chi’n dal yn gweithio arno.



- Profiad da o’r gelfyddyd rydych chi’n ei wneud. A dangos eich bod yn barod i fynd â hi i Gaeredin.




- Y pethau rydych chi am eu cyflawni ym myd y celfyddydau. Pa bethau ym myd y celfyddydau rydych chi wrth eich bodd â nhw?



- Pa fath o gefnogaeth fydd ei hangen arnoch.



- Mae’n rhaid i chi fod yn rhydd i ddod i Gaeredin o **22 tan 26 Awst 2022**.



- Byddwn ni hefyd yn rhedeg gweithdy ym mis **Gorffennaf 2022**.



## Y pethau y byddwn ni’n talu amdanyn nhw

Byddwn yn talu i bobl i chi gael aros yng Nghaeredin yn ystod yr adeg hon.



Byddwn yn rhoi grant o £900 ar gyfer cludiant a thocynnau ar gyfer digwyddiadau.

## Pryd i wneud cais




Mae’n rhaid i chi wneud cais erbyn **5pm** ar **ddydd Mercher 8 Mehefin 2022**.




Byddwn yn gadael i chi wybod beth y byddwn ni’n ei benderfynu erbyn **30 Mehefin 2022**.



Byddwn ni’n gofyn i’r bobl sy’n mynd trwodd i’r ŵyl ddweud wrthyn ni amdani. A beth maen nhw wedi’i ddysgu.



Byddwn hefyd yn gofyn i bobl roi gwybodaeth i ni am eu costau o’r ŵyl.

# Pwy sy'n gallu gwneud cais?



Gall cwmnïau sy'n cynhyrchu celfyddyd ac artistiaid unigol wneud cais.



Mae'n rhaid i chi fod wedi eich lleoli yng Nghymru. Neu wneud llawer o'ch gwaith celfyddyd yng Nghymru.

**Mae'n rhaid bod gennych chi**



1. Hanes da am wneud gweithgareddau celfyddydol ar gyfer y cyhoedd.



2. Os ydych chi'n gwmni, mae'n rhaid bod gennych chi **Bolisi Cyfleoedd Cyfartal** sydd wedi cael ei wirio gan eich corff llywodraethol o fewn y tair blynedd diwethaf. Ac sy'n dilyn y gyfraith.



3. Os ydych chi'n artist, mae'n rhaid i chi fedru dangos i ni eich bod yn deall beth yw **cyfleoedd cyfartal**. A gwneud yn siŵr eich bod yn rhoi hynny ar waith yn y pethau rydych chi'n eu gwneud.




Mae **cyfleoedd cyfartal** yn meddwl trin pobl yn deg ac yn gyfartal, pwy bynnag ydyn nhw.

Mae polisi **cyfleoedd cyfartal** yn rhestr o reolau o bethau y mae'n rhaid i bobl mewn cwmni eu gwneud i drin pawb yn deg ac yn gyfartal.




4. Os oes gennych chi gwmni, bydd gennych chi gyfrif banc yn enw eich mudiad sydd angen o leiaf dau o bobl i lofnodi ar ei gyfer.




5. Os ydych chi'n artist, bydd gennych chi gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol. I gael mwy o wybodaeth am gyfrifon banc ar gyfer mudiadau cliciwch yma. Ac i gael gwybodaeth am gyfrifon banc ar gyfer artistiaid cliciwch yma.




6. Mae'n rhaid i chi fod dros 18 oed ac yn byw yng Nghymru neu fod wedi gweithio llawer yng Nghymru.

# Hygyrchedd



Mae **hygyrchedd** yn meddwl gwneud yn siŵr y gall rhywbeth gael ei ddefnyddio gan bobl, beth bynnag yw eu hanghenion. Er enghraifft, gwneud taflen yn Hawdd ei Deall.



Os oes arnoch chi angen help â'ch cais, neu mae gennych chi anghenion **hygyrchedd**, e-bostiwch ni yn: grants@arts.wales

## Pa gwestiynau y bydd arna i angen eu hateb yn y cais?



**Bydd arnoch chi angen ateb cwestiynau fel:**

1. Gwybodaeth sylfaenol amdanoch chi
2. Cysylltu â chi
3. Ynglŷn â'ch prosiect
4. Y pethau mae arnoch chi eisiau eu gwneud. Efallai y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i ddweud wrth bobl eraill beth rydych chi'n ei wneud.
5. Pa fath o gelfyddyd ydy o. A beth fydd yn cael ei gynnwys.
6. Iaith. A fydd Cymraeg yn cael ei chynnwys?
7. Ble bydd eich prosiect yn digwydd?
8. Cyfleoedd cyfartal.
9. Costau

# Mwy o help



Os oes arnoch chi angen mwy o help, cysylltwch â Maggie yn: maggie.dunning@arts.wales.

# Geiriau anodd

## Cyfleoedd cyfartal

Mae hyn yn meddwl trin pobl yn deg ac yn gyfartal, pwy bynnag ydyn nhw. Mae polisi cyfleoedd cyfartal yn rhestr o reolau o bethau y mae'n rhaid i bobl mewn cwmni eu gwneud i drin pawb yn deg ac yn gyfartal.

## Hygyrchedd

Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr y gall rhywbeth gael ei ddefnyddio gan bobl, beth bynnag yw eu hanghenion.

Er enghraifft, gwneud taflen yn Hawdd ei Deall.